

IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Un o'r sectorau cyflogi mwyaf yn y DU, mae'r diwydiant hwn yn ddelfrydol i chi os ydych yn mwynhau gweithio gyda phobl o bob oedran a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. O ysbytai a meithrinfeydd i'r gadair ddeintyddol, mae sawl llwybr i'w ddilyn!

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn amrywio o feddygon, therapyddion galwedigaethol a therapyddion llafar ac iaith, i seicolegwyr. Mae angen i chi fod yn amyneddgar a mwynhau gweithio gyda'r cyhoedd; gallwch arbenigo mewn maes penodol.

Gofal Plant

Os ydych wedi'ch buddsoddi i helpu plant i dyfu'n emosiynol, corfforol a chymdeithasol, yna mae gofal plant yn ddelfrydol i chi. Mae'r swyddi'n amrywio'n eang ac yn cynnwys athrawon, cynorthwyr addysgu a rheolwyr meithrinfeydd.

Deintyddol

Mae deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenywyr deintyddol, thechnegwyr a therapyddion yn ein helpu ni i gadw'n dannedd gwynion yn lân ac yn iach. Gallwch ddringo'r ysgol a rheoli eich practis deintyddol eich hun hyd yn oed!

Gwyddor Gofal Iechyd

Mae gwyddonwyr gofal iechyd yn ganolog i atal cyflyrau meddygol, rhoi diagnosis ohonynt a'u trin. Delfrydol ar gyfer y rheiny sy'n hoffi datrys problemau ac sy'n wybodus

am yr ymchwil ddiweddaraf. Mae'r swyddi yn cynnwys fferyllwyr, gwyddonwyr biofeddygol a chynorthwyrwyr labordai.

Nyrsio a Bydwreigiaeth


Mae nyrsys yn cynorthwyo meddygon ac ymgynghorwyr drwy wneud i gleifion deimlo'n dawel eu meddwl a diogel, gan fabwysiadu modd gofalgarg. Neu beth am hyfforddi fel bydwraig a helpu i ddod â bywyd newydd i'r byd? Swyddi gwerth chweil a boddhaus i'r rheiny sy'n hoffi helpu ac sy'n dosturiol.

Gofal Cymdeithasol

Byddwch yn cefnogi cleifion o bob cefndir gyda'i anghenion unigol. Mae hyn yn cynnwys gofalu am bobl sydd ag anableddau, yr henoed neu'r rheiny sydd dan anfantais gymdeithasol.

Dolenni Defnyddiol

www.skillsforhealth.org.uk
Cyngor Sgiliau'r Sector dros Iechyd
www.skillsforcare.org.uk
Cyngor Sgiliau'r Sector dros Iechyd
www.stepintothenhhs.nhs.uk/useful-links
Gwefannau gofal iechyd defnyddiol



£27,243
£14.16/AWR
CYFLOG
NODWEDDIADOL AR
GYFARALEDD YN Y
DIWYDIANT HWN

CYFANSWM Y
SWYDDI YN Y
DIWYDIANT HWN

140,740 CYMRU
2,544,291 DU



**GALLAI YMGYNGHORYDD GOFAL
IECHYD ENNILL CYMAINT Â
£100,000 Y FLWYDDYN!**

**MAE'R GYRFAOEDD SY'N CYNYYDDU
CYFLYMAF YN Y MAES HWN YN
CYNWYS OPTEGWYR, FFERYLLWYR
A PHARAFEDDYGON.**



**SWYDDI NYRSIO
YW'R SWYDDI
MWYAF CYFFREDIN
I'W CAEL EU
HYSBYSEBU
AR-LEIN**

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	BG	C	DC	T
Dychwel Cymru Agored i Ddysgu - Sgiliau ar gyfer Astudio Pellach - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓
Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Dysgu a Datblygu Gofal Plant (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

